**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **08.12.2025** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Diweddariad gwasanaeth Crwneriaid Ceredigion** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o fewn gwasanaeth y Crwner** |

**RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** Amherthnasol

**CEFNDIR:**
Ar 15.07.25, ystyriodd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â gwasanaeth y Crwner:
https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s9136/Coroner%20Update%20Report%202025%20-%20July%202025.pdf?LLL=0

**Adroddiad Crwneriaid Awdurdodau Lleol:**
Mae'n ofynnol i'r Uwch Grwner ddarparu adroddiad Awdurdod Lleol i'r Cyngor i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae'n cynnwys ystadegau perthnasol ar achosion cyfredol/wedi'u cwblhau (gyda ffigurau cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol), diweddariad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb o dîm a threfniadau staffio'r Crwner, ac unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Dangosir hyn yn **Atodiad 1.**

**SEFYLLFA BRESENNOL:**

**1)Datganiad Ystadegol Crwner Ceredigion 2023**
Cyflwynwyd Datganiad Ystadegol Crwner Ceredigion ar gyfer 2023 i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er gwybodaeth **(Atodiad 2).** Bydd y datganiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar wahân.

**2) Datganiad Ystadegol Crwner Ceredigion 2024**
Cyflwynwyd Datganiad Ystadegol Crwner Ceredigion ar gyfer 2024 i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er gwybodaeth **(Atodiad 3).** Bydd y datganiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar wahân.

**3)Adroddiad y Prif Grwner i'r Arglwydd Ganghellor: Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024**
Mae'r Prif Grwner yn paratoi adroddiad blynyddol
Report of the Chief Coroner to the Lord Chancellor - Annual Report for 2024

Mae'r negeseuon allweddol wedi'u nodi yn **Atodiad 4.**

Ceir cyfeiriad at Geredigion:

"Achosion dros 12 mis 2024, cyfnod adrodd 1 Ionawr 2024 i 31 Rhagfyr 2024:

- Ceredigion:31

O'i gymharu:

- Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro:54

**4) Cwestau**
**Yn ystod y cyfnod 15.7.2025 – 23.11.2025:**

Cynhaliwyd 22 o gwestau, o'r rhain:

- Nifer o gwestau ysgrifenedig a gynhaliwyd : 18
- Nifer o gwestau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd: 4

Yn weddill 12m+: 21

5)**Tâl Crwneriaid / Crwneriaid Cynorthwyol**
Adroddwyd ar gyflog y crwner ar gyfer 25/26 i'r Cabinet ar 7.10.25 - Cyngor Sir Ceredigion a bydd Cyflog y Crwner ar gyfer 26/27 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 2.12.25 - Cyngor Sir Ceredigion.

**6)Cyfraith Hillsborough - Bil Swydd Gyhoeddus (Atebolrwydd) –**
Hillsborough Law Bill - GOV.UK
https://cms-lawnow.com/en/ealerts/2025/09/the-public-office-accountability-bill-and-its-implications-for-public-sector-transparency-and-misconduct
https://assets.publishing.service.gov.uk/media/68c92621de855c02ab517b3d/Duty_of_Candour_Fact_Sheet.pdf
https://asets.publishing.service.gov.uk/media/68c923ac5e09a4a59af0bf11/MiPO_POA_Bill_Fact_Sheet.pdf

Y Bil Swydd Gyhoeddus (Atebolrwydd) (a elwir hefyd yn Gyfraith Hillsborough):
• yn gosod dyletswydd gyfreithiol newydd ar weision cyhoeddus i weithredu'n onest a chefnogi ymchwiliadau i'r wladwriaeth yn llawn, gan sicrhau nad yw camwedd yn cael ei guddio a sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr.
• yn disodli'r drosedd Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus bresennol.
• Bydd teuluoedd sydd wedi colli pobl yn elwa o gymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol heb brawf modd ar gyfer cwestau.
• dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau bod unrhyw wariant ar gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol mewn cwestau yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd y ddyletswydd hefyd yn arwain ymddygiad cyfreithwyr yn llys y Crwner, gan arwain at y ffaith bod teuluoedd bob amser yn cael eu trin â sensitifrwydd a pharch.

Mae llythyr gan y Prif Grwner dyddiedig 16/09/25 ynghlwm **(Atodiad 5)**

Mae'r Crwner wedi gweld yr adroddiad hwn.

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi na strategaeth

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**
**Hirdymor:** Amh
**Integreiddio:** Amh
**Cydweithio:** Amh
**Cynnwys:** Amh
**Atal:** Amh

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn:

1. nodi cynnwys yr adroddiad

**RHESWM / RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD:**

Adrodd ar y wybodaeth flynyddol sy'n ymwneud â marwolaethau a adroddir i Uwch Grwner Ceredigion, a darparu data ystadegol.

| | |
|---|---|
| **Atodiadau** | **Atodiad 1 -** Adroddiad Crwneriaid Awdurdodau Lleol<br>**Atodiad 2** – Datganiad Ystadegol Crwner Ceredigion 2023<br>**Atodiad 3** – Datganiad Ystadegol Crwner Ceredigion 2024<br>**Atodiad 4 –** Adroddiad Blynyddol 2024 – Prif Grwner – Key Messages<br>**Atodiad 5 -** Bil Swydd Gyhoeddus (Atebolrwydd) - Llythyr gan y Prif Grwner dyddiedig 16/9/25 |

| | |
|---|---|
| **Swyddog Adrodd:** | Elin Prysor |
| **Swyddogaeth:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 02.12.2025 |
| **Acronymau:** | Amh - Amherthnasol |